

**Cylchlythyr (Medi 2025)**

# Arena a Gwesty Caerdydd

## *Croeso i rifyn cyntaf Cylchlythyr Cymunedol Arena a Gwesty Caerdydd.*

*Mae Tîm Mclaren yn falch o gyflawni prosiect Arena a Gwesty Caerdydd hyd at ei gwblhau'n llwyddiannus. Rydym wedi dod â thîm medrus a phrofiadol ynghyd, sydd wedi ymrwymo i ddarparu'r safonau uchaf wrth gynnal perthynas gadarnhaol â'r gymuned leol.*

*Mae gwaith McLaren bellach wedi dechrau ac rydym am i chi gael y newyddion diweddaraf, cymryd rhan, a chael eich ysbrydoli bob cam o'r ffordd. Rydym yn falch i'ch croesawu ar y daith hon ac edrychwn ymlaen at rannu diweddariadau a mewnwelediadau rheolaidd trwy'r cylchlythyr hwn.*



Kevin McElroy
Cyfarwyddwr y Prosiect

Helo!

Dros yr 8 mis diwethaf. Wrth i'r gwaith galluogi gael ei neud gan Knights Brown a Provectus i glirio'r safle ar gyfer ein cleient. Mae tîm Mclaren wedi bod yn cynllunio a chaffael y prif waith ar gyfer cyflawni'r Arena a'r Gwesty newydd yn llwyddiannus, ynghyd â gwaith tir cyhoeddus cysylltiedig. Rydym yn falch iawn o gael ein dewis fel prif gontractwr y prosiect, ac eisiau sicrhau bod y gwaith rydyn ni'n ei wneud yn gadael etifeddiaeth i'r gymuned leol.








*Images: CGI photos of Cardiff Arena & Hotel*

## Beth rydym yn ei wneud…

Bydd prosiect Arena a Gwesty Caerdydd ym Mae Caerdydd yn darparu datblygiad bywiog a chynaliadwy sy'n gartref i arena dan do, gyda'r gallu i gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau adloniant. Mae hefyd yn cynnwys gwesty chwe llawr â 182 gwely i ddisodli'r Travelodge presennol ar Heol Hemingway. Bydd y gwesty newydd yn union i'r gogledd o'r arena newydd. Mae'r prosiect yn cynnwys swm sylweddol o dirlunio allanol gan gynnwys creu sgwâr cyhoeddus mawr i'r de o adeilad yr Arena.

Mae'r safle rhwng Pencadlys y Cyngor (Neuadd y Sir) i'r dwyrain a'r preswylfeydd (sy'n wynebu Rhodfa Lloyd George) i'r gorllewin. I'r de mae Canolfan Red Dragon a'i maes parcio.

- Dechrau'r prosiect: 21 Gorffennaf 2025
- Lleoliad: Prosiect Arena Caerdydd ym Mae Caerdydd
- Maint: lle i 16,500 sedd.
- Dyddiad agor disgwyliedig yr Arena 2028





## Meet the Management Team !



| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Kevin McElroy | Tom West | Nick Clements | Campbell Nation | Steve Bourne | Chris Evans | Carwyn Jones | Rob Huntly |
| **Cyfarwyddwr y Prosiect** | **Rheolwr y Prosiect** | **Rheolwr y Prosiect** | **Rheolwr y Prosiect** | **Rheolwr Masnachol** | **Rheolwr Gwasanaethau Adeiladau** | **Rheolwr Dylunio** | **Rheolwr Dylunio** |

Rydym yn ***Barchus***

Rydym yn cyflwyno ***Ansawdd***

Rydym ni'n ***Gydymdeimladol***

Rydym ni'n ***Sylwgar***

## Dros y misoedd nesaf, fe sylwch ar y canlynol…

Mae Mclaren wedi cymryd meddiant fesul cam o'r safle gan Provectus hyd at ddiwedd mis Medi, gyda gwaith gosod pyst seiliau a gwaith tir yn parhau trwy gydol Ch3 2025.

*'Yn sicrhau eich bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf, ac yn lleihau aflonyddwch'*
Ers i'r safle gael ei feddiannu, rydym yn Mclaren wedi bod yn ymwybodol iawn o'r aflonyddwch y gallai ein gwaith ei achosi i'n cymdogion, ac wedi edrych ar opsiynau i leihau hyn lle y bo modd. Gyda'r ystyriaethau hyn mewn golwg, byddwn yn parhau i gymryd gofal i leihau'r aflonyddwch arnoch wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.



*Ein Hymrwymiadau Gwerth Cymdeithasol*
*Nod Mclaren yw cyflawni nid yn unig prosiect adeiladu o ansawdd uchel, ond hefyd creu effeithiau cadarnhaol parhaol ar gyfer cymuned ac amgylchedd Caerdydd a'r ardaloedd cyfagos. Bydd y cynllun Gwerth Cymdeithasol yn esbonio sut mae prosiect adeiladu Arena a Gwesty Caerdydd yn ymdrechu i wneud yn fawr o'r cyfleoedd sy'n creu gwerth cymdeithasol, trwy ddarparu manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol diriaethol, a gadael etifeddiaeth gadarnhaol i Gaerdydd.*

*Bydd manylion ein hymrwymiadau gwerth cymdeithasol yn cael eu darparu yn ein Cylchlythyr Cymunedol sydd ar ddod.*

- Swyddi i bobl leol a llwybrau i bobl leol gael swyddi cyn cael eu cyflogi
- Prentisiaethau i bobl leol
- Gweithgareddau addysgiadol a chymunedol
- Digwyddiadau cadwyni cyflenwi lleol

### Digwyddiad Cymunedol

Roedd cynrychiolwyr o Mclaren Construction, sy'n gweithio ar Brosiect Arena Caerdydd, yn falch o fod yn bresennol ac o gefnogi Cynhadledd Profiad Gwaith Amanah Cymru 2025 yn ddiweddar yn Ysgol Uwchradd Fitzalan ddydd Sadwrn 12 Gorffennaf. Digwyddiad cymunedol a oedd yn canolbwyntio ar rymuso pobl ifanc o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wrth iddynt archwilio cyfleoedd gyrfa.

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i amrywiaeth a chynhwysiant yn y diwydiant adeiladu, rhannodd aelodau ein tîm straeon personol, mewnwelediadau a chyngor ymarferol am lwybrau gyrfa ym maes adeiladu - o reoli prosiectau i grefftau medrus.

"Mae'n hanfodol bod pobl ifanc yn gweld eu hunain yn cael eu cynrychioli mewn diwydiannau fel ein un ni," meddai Rheolwr y Prosiect, Campbell Nation, "roedd yn wych gweld

pa mor ymgysylltiedig a chwilfrydig oedd y myfyrwyr, hyd yn oed wrth archwilio llwybrau nad oeddent wedi’u hystyried i ddechrau."

Sbardunodd y digwyddiad sgyrsiau ystyrlon, a rhoddodd gysylltiadau gwerthfawr i fyfyrwyr, a hyder o'r newydd am eu dyfodol. Edrychwn ymlaen at

barhau â'n gwaith gydag ysgolion a chymunedau lleol i adeiladu nid yn unig adeileddau - ond dyfodol disgleiriach.










## Rydyn ni yma i helpu...




### Manylion Cyswllt

*Os oes gennych unrhyw ymholiadau brys, cysylltwch â ni. Os ydych chi am dderbyn ein cylchlythyr misol trwy e-bost, cofrestrwch eich diddordeb drwy e-bostio:*

***Talk-To-Us@Mclarengroup.com***

**Oriau Agor y Safle: Dydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 08:00 a**
**18:00 a dydd Sadwrn, rhwng 08:00 ac 13:00**

*Unwaith eto, diolch am eich amynedd a'ch dealltwriaeth barhaus wrth i ni weithio tuag at wella eich cymuned.*

MCLAREN

**Cysylltu â ni**

Group Construction
Prif Swyddfa
11eg Llawr
20 Churchill Place,
Llundain
E14 5EU

+44 (0)20 7078 6963

Llinell ddiogelwch safle 24 awr

+44 (0)7842 000 788

McLaren website

https://mclarengroup.com